AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 239 Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Un o fy hoff bethau ynglŷn â pharatoi ar gyfer y Nadolig yw dod â'r blwch trimins ac addurniadau allan o'r garej a gweld beth dwi wedi ei anghofio ers y flwyddyn diwethaf! Yn arbennig, mae'n hyfryd gweld y pethau bach sy'n ymddangos flwyddyn ar ôl blwyddyn: y peli sgleiniog wnaethon ni eu prynu adeg ein Nadolig cyntaf fel cwpl newydd briodi; yr addurniadau coeden roddodd Mam i ni pan oedd hi'n gwirfoddoli mewn siop Masnach Deg yn Lerpwl. Dwi'n cofio'r un profiad o fy mhlentyndod, a'r llawenydd o weld yr hen bethau cyfarwydd unwaith eto, gan gynnwys tri asyn bychan a safai wrth droed y goeden efo'r stabl a'r preseb – tri oherwydd roedd yna dri o blant yn y teulu, dwi'n meddwl. Dyddiau dedwydd!

Mae'r asyn yn gymeriad hanfodol ym mhob Drama Geni, yn cario Mair i Fethlehem ac yn sefyll yn dawel wrth y preseb. Does dim sôn yn uniongyrchol am asyn yn yr efengylau sy'n dweud wrthym ni am enedigaeth Iesu, ond gallwn gymryd fod yna un o gwmpas – ac anifeiliaid eraill – oherwydd mae Luc yn sôn am breseb. Yn fy mhrofiad i, dydy asynnod ddim yn anifeiliaid tawel. Beth petai'r asyn oedd yn bresennol yn y stabl ym Methlehem yn gallu dweud ei hanes...?

"O! Dwi wedi blino! Dwi wedi teithio'r holl ffordd o Nasareth i Fethlehem, yn cario Mair ar fy nghefn! Mae hi'n hyfryd, yn addfwyn a charedig, ond O! roedd hi'n drwm! Mae hi'n ysgafnach rŵan oherwydd mae yna berson bychan wedi dod allan ohoni hi. Am ryw reswm, mae hi a Joseff a'r babi bach efo fi yn y stabl. Dydy hynny ddim yn arferol o gwbl, ac mae o wedi ychwanegu at y sŵn, sydd ddim yn neis ar gyfer asyn bychan wedi blino! Dwi ddim yn meindio rhannu efo geifr a gwartheg, a hyd yn oed defaid, os oes rhaid, ond mae bodau dynol yn wahanol! O leiaf mae'r bugeiliaid yna wedi mynd erbyn hyn ac mae yna fwy o le i mi orffwys. Ond mae arna i angen bwyd ac alla i ddim mynd yn nes at y preseb. Dwi bron â llwgu! Fel arfer, y gwartheg sy'n gwthio eu hunain ymlaen ac yn dwyn y bwyd i gyd, ond rŵan alla i ddim cael bwyd am fod y person bach yn fy mhreseb i! Ie wir, dyna lle maen nhw wedi ei roi o! Mae'r preseb yn llawn gwellt ffres, blasus, ond does dim i fi. Fasa fo ddim yn addas i mi fynd ymlaen a dechrau bwyta! Ond tybed sut basen nhw'n hoffi taswn i'n dwyn eu bwyd nhw! Os dwi'n deall yn iawn, maen nhw'n defnyddio'r hadau o dop y darnau gwellt i wneud beth maen nhw'n ei alw'n 'fara' – bara ar gyfer bywyd. Ac rŵan, dyna lle mae yna fabi yn y preseb, efo beth sy'n rhoi'r bara iddyn nhw. Fel petai yn rhywbeth ar gyfer eu bwydo hefyd – bara bywyd! O, mae pobl yn od! Preseb pren braf, yn llawn o'r hyn sy'n cadw creadur yn fyw, ond yn dal person bychan. Alla i mo'i ddeall, ond dyna ni.

"Ta waeth... Os na chaf i fwyta, o leiaf mi alla i drio cysgu. Chwarae teg iddo, wnaeth Joseff frwsio fy nghefn ar ôl i ni gyrraedd, felly dwi'n teimlo'n barod i orffwyso. Rhoddodd sylw arbennig i fy nghroes, am ryw reswm – llinell, dywyll yn fy mlew sy'n mynd i lawr fy nghefn, ac un arall debyg sy'n mynd dros fy ysgwyddau. Mae'n gwneud siâp croes, a dwi'n falch iawn o fy un i oherwydd byddai Mami bob amser yn dweud fod fy nghroes i yn arbennig o smart. Felly, diolch i chi, Joseff! Dych chi wedi gwneud i mi deimlo'n arbennig, ac wedi dangos parch i fi ac i'r groes. Efallai nad ydw i'n meindio rhannu fy mhreseb efo'r dyn bach. O leiaf dydy o ddim yn swnllyd... Wel, doedd o ddim yn swnllyd, beth bynnag! O, mae'n crio rŵan. Diolch yn fawr, babi! Ti'n dwyn fy nghinio, ac rŵan ti'n dwyn fy nghwsg! Ond arhoswch funud – mae wedi stopio. Mae Mair wedi ei gymryd o yn ei breichiau. Mae'n tawelu, ac mae Joseff yn troi'r gwellt yn y preseb, yn ei adnewyddu. Efallai y gwna i achub y cyfle i nesáu at y preseb a cheisio cael rhywbeth i'w fwyta. Mae'n werth trio. Dim bara i fi, ond y peth nesaf ato, sef y gwellt oedd â'r hadau i wneud bara. Mi wna i gamu at y preseb pren – asyn bychan efo croes ar fy nghefn – i dderbyn beth sy'n angenrheidiol i fywyd. A gobeithio bydd gweddill y nos yn dawel i ni i gyd! Tawel nos, a thangnefedd i bawb."






# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 239**
**RHAGFYR 2022 – IONAWR 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
7 Ionawr 2023

Llun y clawr: Darlun gan Simone di Filippo (1355-1399), yn Oriel Uffizi, Firenze
Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


# Diolch



Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| Dienw | £ 20-00 |
| Capel Salem, Pentre Helygain | £ 30-00 |
| Capel y Tabernacl, Llanfyllin | £200-00 |
| R. Tegid Jones, Rhos, Wrecsam | £ 30-00 |
| **CYFANSWM** | **£280-00** |



4 Allt Tŷ Gwyn, Y Rhos, Wrecsam

Annwyl gyfeillion

Diolch am y papur arferol diddorol ac am y lluniau lliwgar.

*Diolch am y Gwyliedydd*
*A wnaf ar fore'r dydd,*
*Ac am bob dim ddaw'n newydd*
*O'r wasg grefyddol rydd.*

Anfonaf ychydig at y Gronfa. Diolch unwaith eto.

R. Tegid Jones a'i frodyr a'i chwiorydd.

**Y Parchedig Jennie Hurd, cyd-Gadeirydd y Dalaith, yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Boed bendith Duw ar y gwasanaethau ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Rhagfyr 2022**

4 Cylchdaith Cymru – Ardal Dyffryn Clwyd
11 Cylchdaith Cymru – Ardal Powys
18 Cylchdaith Cymru – Ardal Dyffryn Clwyd
25 Ar gael

**Ionawr 2023**

Ddim ar gael – Cyfnod o seibiant

# Gweithredu Dros Blant



Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn | £150.00 |
| Ardal Môn ac Arfon | £200.00 |

Anfonwyd y swm o £350.00 ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.

**Apêl Anrhegion Nadolig**: Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r Apêl. Mae'r elusen yn gwerthfawrogi haelioni aelodau a chyfeillion Cylchdaith Cymru – ceir mwy o newyddion yn y rhifyn nesaf.

**Gwasanaeth Nadolig:** Mae deunydd i'w gael ar wefan *Action for Children* yn yr adran *Fundraise in your Church*. Os ydych yn cael problem i lawrlwytho'r deunydd cysylltwch â ni.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717 cwrteden@gmail.com

# Merched Methodistaidd ym Mhrydain


Braf oedd cael ymgynnull yng nghapel Bathafarn, Rhuthun ar Hydref 15[fed] i ymuno â chwiorydd o wahanol eglwysi Cylchdaith Cymru.

Daethom ynghyd o dan fantell Mudiad y Merched Methodistaidd i wrando ar anerchiad gan Angharad Tomos. Rydym i gyd yn gyfarwydd iawn â dawn Angharad i drin geiriau, ac yn teimlo ein bod yn ei hadnabod drwy ei cholofnau yn y *Gwyliedydd* a phapurau eraill hyd yn oed os nad ydym yn ei hadnabod yn bersonol. Yn ei harddull ddiflewyn ar dafod bu iddi fynegi ei barn ar gyflwr ein gwlad. Soniodd am ei gofid wrth ddarllen colofnau ein papurau dyddiol a gwrando ar y newyddion sydd yn ddi-os yn ddigon i godi'r felan ar rywun. Ond neges o obaith oedd ganddi i'w rhannu â ni.

Fel Cristnogion, drwy ymddiried yn Nuw, fe fedrwn ysgafnhau ein beichiau gan mai Duw sydd yn ysgwyddo'r pwysau; does ond yn rhaid i ni roi ein ffydd ynddo. Dydy hynny ddim yn rhoi caniatâd i ni olchi ein dwylo o bob cyfrifoldeb sydd arnom fel aelodau o eglwys Crist. Anogodd Angharad ni i fentro i'r dyfodol fesul cam yng nghwmni ein gilydd, a chyfeiriodd at yr ymgyrch wnaed gan ferched Cymru a ddechreuodd eu taith o Benygroes, Arfon, i Lundain wedi'r rhyfel byd cyntaf, i fentro i ofyn am heddwch. Ymgyrch a fu yn gyfrwng i hyrwyddo sefydlu'r mudiad y byddwn bellach yn cyfeirio ato fel y Cenhedloedd Unedig.


Diolch o galon i aelodau'r capel am ein harwain yn y defosiwn ac am y croeso ac i Margaret Morgan am ei chyflwyniad cerddorol.

*Rona Morris*




**Mrs Nansi Hughes, mam y diweddar Barchedig Raymond Hughes, yn darllen y *Gwyliedydd* ar ddydd ei phen-blwydd yn 102 mlwydd oed. Mae hi'n anfon ei chofion at holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd*.**

# 'MALWAN BACH FEL FI....' ...YN CLODDIO AM AUR




**gan PRYDWEN ELFED-OWENS**
**Gwasg Carreg Gwalch**

Adolygiad gan Dr Alwyn Humphreys

Dyma gyfrol gadarnhaol sy'n tystio i ymdrechion pobl ar draws Cymru i ymateb yn bositif i'r sialensau o gynnal gweithgareddau crefyddol mewn cyfnod sy'n ymddangos o leia, yn un o ddifaterwch cyffredinol. Ar ôl cychwyn o safbwynt beirniadol penderfynodd Dr Prydwen Elfed-Owens fynd ar bererindod i ddod o hyd i weithgareddau mewn eglwysi a chanolfannau eraill sy'n codi calon ac yn ysbrydoliaeth. Dyna felly egluro'r ymadrodd 'cloddio am aur' yn nheitl y gyfrol, sef cyfweliadau gyda nifer o gyfranwyr sydd yn cynnig syniadau egnïol, gobeithiol a brwdfrydig ar sut i 'rodio tua'r goleuni'. Mae'r amrywiaeth yn anhygoel – o ran cyfranwyr a phynciau – a cheir hanesion calonogol o weithgareddau sydd wedi rhoi bywyd newydd i nifer o eglwysi a sefydliadau. Yn ychwanegol mae yma apêl bendant i'r unigolyn, gan fod 'cloddio am aur' yn sicr o daro tant ymysg llawer ohonom ni, bererinion ein cyfnod. Mewn gair, dyma gyfrol sy'n cynnig atebion a chyfarwyddyd ymarferol, gan adrodd ar yr un pryd straeon sy'n gwirioneddol gyffwrdd y galon. Fe fydd croeso arbennig iawn i'r llyfr hwn, fel ysbrydoliaeth gyfoes a dogfen hanesyddol werthfawr.

**Ôl nodyn – bydd Prydwen Elfed-Owens yn llunio colofn i'r *Gwyliedydd* o'r rhifyn nesaf ymlaen.



# Adeste, fideles



*Bedwar ugain mlynedd yn ôl ym mis Rhagfyr 1942, roedd Selyf Roberts, aelod o'r Eglwys Fethodistaidd ac awdur rhyddiaith Gymraeg nodedig, yn un o bymtheg carcharor rhyfel a dreuliodd y Nadolig mewn ward ysbyty yn ninas Parma yn yr Eidal. Mewn ysgrif a gyhoeddwyd yn yr Eurgrawn yn Rhagfyr 1955, disgrifiodd Selyf gyfaredd annisgwyl noswyl Nadolig 1942.*

"Gorweddwn yn y gwely glân nos galan Nadolig, 1942. Aethai'n hwyr cyn i neb ohonom fynd i gysgu, a gwyddwn fod eraill yn y ward yn dal yn effro, yn ddisgwylgar effro heb wybod pa beth a ddisgwyliem. Llithrodd oriau'r hwyr i oriau'r nos, a minnau'n edrych ar y sêr yn symud o baen i baen dros y ffenestri tal ar hyd un mur. Disgynasai trwch o eira ddoe a bore heddiw, ond erbyn hyn ciliodd gwg trymaidd y cymylau beichiog a daeth ffurfafen agored, ddulas a rhew i'w chanlyn – rhew a sêr a nos.

"A chalan Nadolig.


"Nid oeddwn yn agos i gwsg pan ddechreuodd y clychau. Trawsant yr awyr gyda'i gilydd heb unrhyw rybudd, ac am beth amser nid oedd yn bosibl clywed dim ond cymysgedd esgeulus eu sŵn: sŵn clychau eglwysi a lleiandai ac ysgolion a cholegau, gyda'i gilydd yn cwympo'n rhaeadr dros y rhew. Wedi imi gael trefn ar bethau, a throi'r clywed yn wrando, daeth gwahanol glychau i'm cyfarch wrth y gwely fel y gallwn adnabod y naill oddi wrth y llall. Clywn donau chwareus yr eglwys rownd y gongl, a thymp mwy gosgeiddig yr Eglwys Gadeiriol draw; canai un gloch denor unsain, a rhedai brodwaith o glychau alto rhwng ei nodau clir. Yr oedd yno gylch o chwech yn cystadlu â chylch o wyth, a chylch eto wedyn yn eu gyrru o'm clyw dros dro gyda therfysg o nodau rywsut-rywsut. Ac yn awr ac eilwaith deuai clychau dwfn yr esgob i gadw trefn, megis, ar yr awelon a rhwystro llawenychu rhag mynd yn sbri.

"Nid oedd ryfel a rwystrai fore'r Nadolig. Nid oedd wahaniaethau ymhlith dynion a wrthodai undeb yr aur a'r thus a'r myr. Nid oedd le i gartrefi drylliedig yn yr un byd â Joseff a Mair "a'r Mab bychan". Canai clychau Parma am mai dyma'r bore y ganwyd Iachawdwr Hitler a Mussolini a Churchill a Roosevelt a Stalin a Phawb. Am eiliad neu ddau fe'm syfrdanwyd gan ffolineb dynion, gan mor ofnadwy ffôl ydynt. Pa ryw wenwyn a dywalltodd y blynyddoedd i wythiennau'r ddynoliaeth nes ei bod yn gallu cymysgu sŵn gynnau â sŵn clychau? Pa gymhlethdod ar gymdeithas oedd hwn a barai fod clychau Parma yn dawnsio canu a'r tafodau wedi eu clymu'n fud yng nghlychau Llandrillo-yn-rhos?

"Rhoddais y gorau iddi, yn fychan analluog yn y gwely glân. Heno yr oedd Bethlehem yn ymyl, yn agosach am a wn i nag erioed o'r blaen, ac efallai yn agosach nag a fyddai byth. Nid hwyrach mai dyma'r profiad mwyaf grymus a gawn o'r Geni, ac os felly gwnawn y gorau ohono. Wedi'r cwbl, nid yw profiad byth yn dyfod ddwywaith, ac ni ellir ei gadw i'w flasu fel bo'r awydd. Blodeuyn un noson ac un lle ydyw.

"Clywais wagle yn y cylchau, a gwrandewais yn astud ar ryw nodau dieithr, gwahanol a ddaeth – nodau rhyw garilon tlws yn hwylio tros yr hen ddinas, yn plethu eu llwybr drwy'r ugeiniau o glychau ac yn dyfod i mewn drwy'r ffenestri tal:

"Adeste, fideles,
Laeti, triumphantes,
Venite, venite, in
Bethlehem"




Eleni bydd aelodau Bethel Deganwy yn rhannu 300 o gardiau Nadolig gyda gwahoddiad i wasanaethau Nadolig Bethel, i'r tai o gwmpas y capel.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYMDEITHAS**
Ar ddydd Sul Medi 25 cawsom fore difyr iawn yng nghwmni ein cyfeillion yn Ebeneser, Hen Golwyn, pan fuom yn sgwrsio'n braf gyda'n gilydd a mwynhau paned a chacennau. Diolch i aelodau Ebeneser am y croeso cynnes.






**HOFF EMYNAU**
Gan fod gennym Sul gwag ar ddiwedd Hydref penderfynwyd gofyn i bawb ddewis ei hoff emyn ac egluro'r rheswm am y dewis. Diddorol iawn oedd clywed y cefndir i ddewisiadau pawb.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Gwenllian sydd yn disgwyl llawdriniaeth ar ei chlun cyn bo hir. Cofion hefyd at bawb sydd yn methu dod i'r gwasanaethau oherwydd gwaeledd a gwahanol anawsterau.

**GRŴP CRISTNOGOL GOFAL CANSER**
Ar ddydd Sadwrn 1 Hydref cynhaliodd Grŵp Cristnogol Gofal Canser Ardal Conwy Fore Coffi yn Ysgoldy Horeb, Bae Colwyn, i godi arian i Gronfa Gofal Canser Macmillan. Roedd yn gyfle arbennig, ar ôl mynd trwy amseroedd mor anodd, i gymdeithasu gyda hen ffrindiau a chael croesawu ffrindiau newydd dros baned, bisgedi a chacennau blasus. Roedd haul bore o Hydref yn tywynnu'n gynnes ar y capel, a'r un mor gynnes oedd y gymdeithas wrth inni gefnogi'r achos teilwng hwn. Mewn partneriaeth â Chlwb Rotari Llandrillo yn Rhos, llwyddwyd i godi dros £685 i Gronfa Macmillan. Diolch i Ken Owen am drefnu'r lleoliad a thynnu lluniau; i Ann Wensley a Wendy Morris am baratoi'r lluniaeth blasus ac i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau. Bendith Duw arnynt i gyd.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Ebeneser, Ystumtuen

**DIOLCHGARWCH**
Ar ddydd Sul 9 Hydref cynhaliwyd ein cwrdd Diolchgarwch o dan arweiniad Mrs Ann Price. Cafwyd oedfa fendithiol iawn, a phaned a sgwrs i ddilyn. Yna trannoeth cawsom gyfle i groesawu plant Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd atom i gynnal eu Gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd y disgyblion yn arbennig ac wedi paratoi yn drylwyr, a chafwyd gwledd o ganu ac actio. Rhoddwyd anerchiad i'r plant gan Mrs Delyth Morris Jones, hithau hefyd wedi bod yn brysur yn paratoi gan iddi ddod â llwyth o wahanol ffrwythau a phlanhigion i'w harddangos, a'r neges yn bwrpasol a diddorol. Fe wnaeth y plant ymateb yn dda, a hawdd oedd gweld eu bod yn mwynhau. Gwnaed y diolchiadau gan Mr Huw Morris, ac yna cafwyd eto luniaeth ysgafn a danteithion i'r plant cyn iddynt droi am adref. Gobeithio y cawn eu cwmni yn fuan eto.

**GOHEBYDD .** RUTH PARRI-OWEN



## Shiloh Newydd, Tregarth

**PEN-BLWYDDI ARBENNIG**
Ar 4 Tachwedd, dathlodd ein cyfaill a'n cyn-weinidog, y Parchedig Gwynfor Williams, ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed. Dymunwn ei longyfarch yn galonnog ac anfonwn ein cofion anwylaf hefyd at ei briod Katie, gan ddiolch iddi hithau am fod yn gymaint o gefn i Gwynfor ar hyd y blynyddoedd. Hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 ar 18 Tachwedd y mae ein horganydd, Wynn Williams. Mawr yw ein diolch fel eglwys i Wynn am roi oes o wasanaeth.

**GWASANAETHAU**
Diolchwn i bawb sydd yn dod atom i Shiloh Newydd i arwain yr oedfaon. Yn ddiweddar pregethwyd gan Dewi Morris, Philip Barnett, Dr Jennie Hurd, Geraint Roberts, Dafydd Coetmor Williams ac Ellie Jones. Rydym fel cynulleidfa yn gwerthfawrogi eich cwmni a'ch cenadwri i ni.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Aziliz Kervegant sydd yn dilyn cwrs gradd mewn Eidaleg ym Mhrifysgol Caeredin, ac i Beca Jones sydd wedi dechrau ei thymor cyntaf ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl. Bu'r ddwy yn aelodau selog yn Ysgol Sul Shiloh.

**DRWS AGORED**
Mor braf ydi cael cwmni hwyliog ar fore Gwener pan ddown at ein gilydd ar gyfer paned a sgwrs mewn ystafell gynnes. Mae nifer dda o ffyddloniaid yn dod draw ond mae digon o le i unrhyw un arall a hoffai ymuno. Croeso cynnes iawn.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES



## Ardal Bathafarn

**OEDFAON**
Diolchwn am genadwri gwerthfawr y rhai a fu'n arwain oedfaon yma yn y misoedd diwethaf. Braf iawn oedd cael croesawu'r Parchedig Jennie Hurd, Llinos Mary Jones, Gwyddelwern, a'r Parchedig Dilys Jones, Amwythig.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn yn dda i Lynn Hughes, Corwen, sydd wedi cael clun newydd. Cofion anwylaf ati ac at bawb sydd yn dioddef o anhwylder.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Iolo a Beryl Evans o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl; hefyd at Audrey Jones o golli nai yn sydyn iawn a chwaer yng nghyfraith. Yr un yw ein cydymdeimlad â'r Parchedig Martin a Gwen Evans-Jones sydd wedi colli chwaer yng nghyfraith. Meddyliwn amdanoch i gyd yn eich hiraeth am anwyliaid.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Daeth criw da ynghyd i Fathafarn ym mis Hydref, i gyfarfod Merched Methodistaidd – y tro cyntaf mewn tair blynedd i ni gwrdd. Bu'n brynhawn bendithiol iawn. Yn dilyn gair o groeso gan Elizabeth a defosiwn yng ngofal Meta a Marian, cawsom anerchiad gan Angharad Tomos ar y thema 'Na ddysg ryfel mwyach'. Gyda'i dawn arbennig i siarad yn gwbl naturiol ac ennyn diddordeb y gwrandawyr, rhoddodd Angharad inni sgwrs yn llawn gwirioneddau. Cawsom hefyd unawd teimladwy gan Margaret Morgan. Cyfeiliwyd gan Rhian Roberts. Wedi i'r Parchedig Jennie Hurd gyhoeddi'r Fendith, cafodd pawb gyfle i gymdeithasu a mwynhau paned a lluniaeth a baratowyd gan Mairwena Mosford. Diolch i Rona, Margaret, Gwenda a Manon am eu gwaith canmoladwy gyda Merched Methodistaidd.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

*[Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ag Elizabeth yn ei phrofedigaeth lem o golli ei gŵr annwyl, Bob. Gol.]*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**GWELLHAD BUAN**
Disgynnodd Mrs Margaret Owen yn ei chartref a threuliodd gyfnod yn yr ysbyty. Mae hi adref erbyn hyn a gobeithio y bydd yn parhau i wella. Bydd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn bo hir a dymunwn yn dda iddi.

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Ardal Llanrhaeadr



**PRIODAS RUDDEM**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r Parchedig Gwyndaf a Mrs Eirlys Richards ar ddathlu eu priodas ruddem. Cafwyd te pnawn i ddathlu yn Neuadd Llanfihangel-yng-ngwynfa yng nghwmni teulu a ffrindiau, gyda rhoddion er budd elusen canser Lingen Davies, Amwythig, ac at Neuadd Pontllogel. Priodwyd y ddau yng nghapel Bethel, Heathfield, Penny Lane, Lerpwl ar 23 Hydref 1982. Ar y pryd roedd Gwyndaf yn swyddog yng nghyngor Dinas Lerpwl ac Eirlys yn athrawes ysgol gynradd yn y ddinas.

**GOHEBYDD .** RONA MORRIS

## Ebeneser, Eglwysbach

**CYMANFA GANU**
Nos Sul 25 Medi cynhaliwyd Cymanfa Ganu. Yr arweinydd oedd Arfon Williams, Cwmtirmynach, gyda Diana Hughes wrth yr organ. Bu canu da ar yr emynau a chafwyd eitem hefyd gan Hogie'r Berfeddwlad. Croesawyd ni gan y Parchedig Marc Morgan, a chafwyd gair gan yr Arglwydd Roger Roberts. Gwnaed casgliad at Gronfa Plant Wcráin ac roedd y cyfanswm yn £300.





**DIOLCHGARWCH**
Nos Sul 23 Hydref cynhaliwyd ein Cyfarfod Diolchgarwch dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett. Cawsom oedfa fendithiol. Diolch i Deryl a Dewi am addurno'r festri ac i Diana am ei gwaith wrth yr organ.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Gwenfair Alaw Hughes, Tu Hwnt i'r Fawnog, Maenan, a Gareth Bickerton, Lloran Uchaf, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau a phob bendith i chi eich dau.

**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

## Bethel, Rhiwbeina

**BANC BWYD**
Yn ogystal â chasglu bwyd, byddwn ar 30 Tachwedd yn cynnal Bore Coffi i godi arian i'r elusen hon.

**Y NADOLIG**
Gyda'r Nadolig yn nesáu mae côr y capel yn ymarfer bob bore Sul. Rydym yn paratoi ar gyfer yr oedfa Nadolig a fydd yng ngofal yr aelodau ar Ragfyr 18. Diolch i Gwilym Roberts am ddewis y carolau ac am ei hyfforddiant a'i frwdfrydedd. Edrychwn ymlaen hefyd at fwynhau cinio Nadolig gyda'n gilydd ar Ragfyr 6.

**OEDFAON**
Cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchedig Gwilym Wyn Roberts, Lona Roberts, Delwyn Siôn, Emlyn Davies a'r Parchedig Dafydd Owen. Diolch iddynt i gyd am eu geiriau doeth a chalonogol. Cofiwn am yr aelodau nad ydynt mewn iechyd da ar hyn o bryd.

**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

# Y naill yng ngwlad y llall



gan **Angharad Tomos**

Y ffordd hawsaf o egluro cynnwys y llyfr hwn yw 'taith Gwyddel drwy Gymru yn 30au y ganrif ddwytha, a thaith Cymro drwy Iwerddon tua'r un cyfnod'.

Cael llyfr drwy'r post wnes i yn ystod cyfnod Covid, yn holi fyddai gen i ddiddordeb cyfieithu '*This Road of Mine*' i'r Gymraeg. Yn y Wyddeleg y sgrifennwyd y llyfr bron i ganrif yn ôl, ac roedd cyfaill o Wyddel wedi ei gyfieithu i'r Saesneg. Ond gan mai taith o amgylch Cymru a ddisgrifir yn y llyfr, ystyriwyd y byddai'n ddifyr ei drosi i'r Gymraeg. A dyna ddaru mi. Wedi'r cwbl, roeddwn yn gwbl segur, a dim amgenach i wneud yn nyddiau cynnar Y Pla.

Awgrymodd cyfaill i mi y byddai'n dda canfod Cymro fyddai wedi teithio drwy Iwerddon yn ystod yr un cyfnod, ac yn syth meddyliais am lyfr fy Nhaid oedd wedi bod ar ein silff lyfrau erioed. Ei enw yw 'Ar Olwyn yn Eire' ac mae yn arbennig gan mai dim ond un copi ohono sydd yn y byd.

Cefndir y daith honno yw fod fy Nhaid, David Thomas, wedi penderfynu cael gwyliau dramor, ym 1939. Roedd fy nhad, Arial, yn 14 oed, a'i chwaer, Ffion, yn 19 oed. Rhiant sengl i bob pwrpas oedd Taid gan i'w wraig ddioddef iselder dwys rhyw chwe mlynedd ynghynt, a threuliodd weddill ei hoes mewn ysbyty meddwl. Dewis fy Nhaid oedd mynd i Iwerddon, dewis Dad oedd gwersylla a theithio ar feics. Yn tynnu at ei drigain, roedd hon yn dipyn o her i Taid.

Cawsant dair wythnos gofiadwy, a chadwodd Taid gofnod o'r cyfan. Wedi dod adre, teipiodd y 'dyddiadur' a'i anfon i'r *Gwyliedydd Newydd*. Fe'i cyhoeddwyd yn wythnosol rhwng 1939 a 1940. Torrodd Taid y colofnau hyn gyda siswrn, a'u gludo mewn llyfr. Ychwanegodd ambell lun o daflen wyliau, a thalu i'r cyfan gael ei rwymo rhwng dau glawr. Dyna ydi 'Ar Olwyn yn Eire'. Meddyliais y byddwn yn golygu'r cynnwys a'i gyhoeddi am y tro cyntaf efo taith y Gwyddel. Cyhoeddodd Gwasg Carreg Gwalch 'Y Naill yng Ngwlad y Llall' yn gynharach eleni.

Dydi taith y Gwyddel drwy Gymru ddim yn un hawdd. Does gan y creadur – Seosamh Mac Grianna (ynganer Showsiv Mogri-na) – fawr o arian. O ganlyniad, cysgu yn yr awyr iach a wnaiff ym mhob tywydd. Dydi o ddim yn berchen beic hyd yn oed, felly mae'n daith sydd efo'i heriau dyddiol. O gymharu ei hun â'r Gwyddel, mae taith Taid yn ymddangos yn un foethus!

Ond i ddarllenwyr y *Gwyliedydd*, falle y byddai'n ddifyr clywed ambell ddyfyniad o ddyddiadur Taid. Dyna i chi baratoi i ddechrau,

> "Dyma brynu tent newydd, wedi ei bacio'n daclus, a llen rwber i'w rhoddi o danom rhag i'r lleithder godi... Dyma wneud 'sach gysgu' i bob un ohonom hefyd, sef dyblu gwrthban gwlanen, a gwnïo'r gwaelod a'r ochr i'w wneud ar lun sach.'

Sut aeth y noson gyntaf o wersylla, gofynnwch, – nid yn rhy dda mae arna i ofn! Meddai Taid,

> "Bobl annwyl! Ni feddyliais erioed o'r blaen fod gennyf gymaint o esgyrn yn fy nghefn, ac ni ddychmygais y gallai asgwrn fod yn beth mor dendar. Yr oedd fy holl esgyrn, a gewynnau gwaelod fy nghefn yn ddolurus, a'r anghysur yn mynd yn fwy anodd i'w ddioddef bob munud.'

'Gwersylla gwyllt' yw'r term a ddefnyddir heddiw am osod eich pabell ar unrhyw ddarn o dir. Doedd gan Taid a'i deulu ddim dewis. Peth cymharol brin oedd gwersylla yn y Tridegau, a mater o ganfod lle cyfleus ydoedd, heb holl foethau 'maes pebyll' ein dyddiau ni. Molchi mewn afon neu yn y môr a ddaeth yn arferiad, ond y noson gyntaf, doedden nhw ddim wedi meddwl am hyn.




> 'Nid oedd dim amdani ond defnyddio'r gwlybaniaeth ar y glaswellt nes dyfod ohonom i le mwy cyfleus. Cofiais am hen gân Saesneg sydd yn dweud, 'Tis dabbling in the dew that make the milkmaids fair.'

Yr hyn wna'r llyfr yn ddifyr yw sut y maent yn dygymod â'r problemau bach bob dydd yma. Gan eu bod yn gorfod cludo y cyfan ar dri beic, dim ond hanfodion bywyd oedd yn cael eu caniatáu, sef mwg 'bakelite' yr un, does dim sôn am blatiau na chytleri. Falle fod cyllell ganddynt i dorri bara a thaenu menyn. Byddent yn byw ar beint o lefrith yr un bob bore a bob nos, a rhyw frechdan amser cinio. Dibynnent ar bwmp dŵr mewn pentrefi i dorri syched. Un dydd, anfonodd Taid ei blant i siopa a daethant yn ôl efo wyau a thun o pineapple chunks. Yn amlwg, roeddent eisiau newid o'r brechdanau mwyar duon! Dyma fwynhau'r pinafal gyda'r nos, a meddai Taid,


> 'Yn y bore, cawsom ymolchi yn nŵr y môr, ac yna mynd ati i ferwi'r wyau yn y tun chunks... Dyma osod nifer o frics a cherrig i wneud lle tân, a chasglu crinion eithin yn danwydd, ac yn fuan yr oedd wyau'n berwi'n braf a ninnau'n llosgi gan fwg eithin yn y gwynt troellog.'

Un o'r problemau mwyaf oedd sut i gadw y menyn rhag toddi. Canfu fy nhaid yr ateb i'r broblem honno hyd yn oed, drwy wneud twll yn y dorth a chadw'r menyn yn y canol. Roedd yn datrys problem y menyn, ond doedd fawr o siâp ar y frechdan!

Un waith yn unig mewn tair wythnos maen nhw'n cysgu dan do, yn hytrach nag yn y babell. Roeddent wedi holi am le i un gŵr ac yntau wedi dweud y caent ddefnyddio ei gae, lle roedd merlen yn pori. Doedd y tir ddim yn addas, ac fe'u gwahoddodd i gysgu yn ei dŷ ef. Tŷ cyngor ydoedd, a dyma ddisgrifiad Taid ohono,







> 'Ystafell fechan a llawr concrit hollol noeth oedd y gegin, tân mawn yn y grât, a thomen fawr o fawn yn llenwi canol yr ystafell. Aethom drwy'r gegin i'r ystafell nesaf, llawr a waliau concrit oedd i honno eto, ac yno y gwahoddwyd ni i gysgodi am y noswaith. Yr oedd y llawr yn galetach hyd yn oed na phridd y ddaear, ond cawsom gysgod rhag y gwynt oer, a diolch amdano.'

Mae hynny'n rhoi rhyw syniad i chi o'r tlodi oedd yn gyffredin yn Iwerddon yn y cyfnod hwnnw. Ond yn cyd-fynd â hyn (neu o'i herwydd), roedd yna haelioni rhyfeddol. Drwy gydol y tair wythnos, ni fu raid i Taid dalu unwaith am wersylla ar ddarn o dir, neu ar fferm. Yn aml, byddai'r ffermwr yn rhoi llefrith yn rhad ac am ddim iddynt, neu fag o afalau. Gwnaeth hyn argraff ddofn ar fy Nhaid.

Rhyfeddol yw nodi mai dim ond 16 mlynedd oedd wedi mynd ers Rhyfel Cartref Iwerddon, ac roedd y cof am y 'Black and Tans', milwyr Prydain yn Iwerddon, yn fyw iawn.
Roedd Taid wrth ei fodd yn siarad efo pobl leol gan ddod i ddysgu am yr iaith a'r hanes.

Holodd un Gwyddel am beth fyddai'r Cymry yn siarad, a soniodd Taid sut y byddent yn trafod gwleidyddiaeth a llyfrau, diwinyddiaeth a'r bregeth ar y Sul. "Ni chewch chi yr un Gwyddel i siarad am lyfrau; ac am grefydd, fyddwn ni byth yn sôn amdani, dim ond mynd i wasanaeth yr Offeren, yn gwneud fel y bydd yr offeiriad yn gorchymyn inni."

Rhyw bictiwr o Iwerddon ganrif yn ôl fel hyn wna'r straeon yn ddifyr. Maent yn cael profiadau cofiadwy, mae'r cyrff yn ystwytho, ac maent yn cael gwyliau i'w gofio. Ond yn niwedd Awst 1939, mae cymylau rhyfel yn ymgasglu, a Taid yn pryderu wrth weld penawdau'r papur newydd. Rhaid iddynt brysuro o Orllewin Iwerddon i gyrraedd Dulyn a chroesi cyn iddynt gael eu dal mewn gwlad niwtral a methu dod i mewn i Gymru.

Cael a chael ydi hi. Erbyn Medi 1af roedd yr Ail Ryfel Byd wedi cychwyn. Fel hyn mae'r dyddiadur yn gorffen, a hwythau wedi cyrraedd Bangor am bedwar o'r gloch ar ddydd Sadwrn.

> 'Nos Sul, pan oedd y Parch R. W. Davies yn paratoi i ddechrau gwasanaeth yng Nghapel Horeb, cyn traddodi ei Bregeth Ffarwel yno, yr oedd tri phererin cartrefol, yn teimlo cyn iached â'r gneuen wisgi, yn cerdded i lawr i'w seddau i wrando arno. Dyna un rheswm arall paham yr oedd arnaf eisiau cyrraedd ddydd Sadwrn.'

Felly Hitler oedd un rheswm am y brys i gyrraedd adre, a phregeth ffarwel y Parch R. W. Davies oedd y llall!

**Ôl-nodyn**
Bu cofnodi'r teithiau hyn yn help i mi yn ystod Covid. Pan na chaem deithio ymhellach na 5 milltir o'n cartref, ron i'n teipio'r anturiaethau hyn, ac yn cael dianc i Iwerddon y Tridegau. Ron i hefyd yn cael cwmni Dad a Nhaid ac Anti Ffion, pan oeddent yn iach a dibryder, ac roedd hynny yn fendith.

Gyda llaw, ym 1981, ddeugain mlynedd wedi'r Daith Feics, trefnodd Dad ein bod yn ail-wneud y daith, nid gyda beics, ond efo car a charafán. Aeth popeth yn hwylus, a chefais innau fod yn rhan fechan o 'Ar Olwyn yn Eire'. Ond ar y noson ola, cafodd ein car ei ddwyn yn Nulyn a helbul mawr oedd cael y garafán adre. Ffoniodd y Gardai yn fuan wedyn i ddweud fod y car wedi ei ganfod, a bu raid i Nhad deithio nôl i Iwerddon i'w nôl. Roedd ei gynnwys i gyd wedi ei ddwyn, yn gotiau a bagiau a chamerâu – popeth fyddai teulu o saith yn ei gludo ar eu gwyliau. Yn bryderus iawn, chwiliodd fy Nhad yn y bŵt a chwilio yn ddyfal am y gyfrol clawr coch. Dacw fo a diolch byth – roedd y lladron wedi ei adael ar ôl – 'Ar Olwyn yn Eire' – yr unig gopi yn y byd!

## Pendref, Dinbych

**EIN HOEDFAON**
Yn ystod misoedd Medi a Hydref cawsom oedfaon bendithiol dan ofal Royce Warner, Celfyn Williams, Dilwyn Jones ac Enid Mair Davies. Cynhaliodd y Parchedig Marc Morgan ei wasanaeth cyntaf yma hefyd fel ein gweinidog. Cawsom yn ogystal gyfarfodydd gweddi dan arweiniad rhai o'r blaenoriaid a mawr yw ein diolch iddynt. Blaenor mis Medi oedd Elfed Evans gyda Sheila Thomas yn gofalu am fis Hydref. Diolch i'r cyfeilyddion, Vera Savage, Beti Roberts a Marjorie Williams am eu gwaith ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r rhai sy'n methu bod gyda ni.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Prynhawn dydd Mawrth 18 Hydref daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i gyfarfod blynyddol yr eglwys dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Cafwyd cyfarfod ystyrlon, effeithiol a hwyliog a diolchwyd i'r holl swyddogion am eu gwaith. Ailetholwyd hwy i gyd am flwyddyn arall.

**DIOLCHGARWCH**
Yn unol â'n traddodiad, cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch undebol capeli tref Dinbych ar ddydd Iau cyntaf mis Hydref. Yn y cyfarfod gweddi yn y bore yn Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws, cymerwyd rhan gan Hywel Evans ar ran Pendref.

**LLONGYFARCH**
Hoffem longyfarch Bethan Roberts ar ddod yn nain a Sheila Thomas yn hen-nain i Lea Gwen. Dymunwn yn dda i'r teulu.

**MARATHON**
Dechrau mis Hydref cymerodd Dewi Roberts ran ym Marathon Caer a hynny er cof am ei ddiweddar dad Geraint Roberts. Penderfynwyd cynnal casgliad arbennig i noddi Dewi. Deallwn iddo orffen y cwrs mewn amser da a llwyddo i godi cyfanswm o £2,391 ar gyfer Prostrate Cancer UK. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Ebeneser, Dolgellau

**OEDFA DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Hoedfa Diolchgarwch ar fore Sul 16 Hydref dan arweiniad y Chwaer Eluned Williams. Diolch i Nesta ac Efin am greu poster hyfryd ar gyfer y Gwasanaeth. Ein harferiad yw derbyn rhoddion ariannol yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch gan eu rhannu rhwng elusen ryngwladol, un genedlaethol ac un leol. Eleni penderfynwyd cefnogi *All We Can* fel elusen ryngwladol, a dewis y ddwy arall maes o law. Yn dilyn yr Oedfa, aeth 23 ohonom i fwynhau cinio gyda'n gilydd yn y Clwb Rygbi. Roedd y cymdeithasu mor llwyddiannus fel y daeth cais am achlysur arall tebyg! Gobeithiwn gael cinio Nadolig gyda'n gilydd ar un o'r Suliau ym mis Rhagfyr.



**CAFFI CAPEL**
Cawsom oedfa Caffi Capel yn y Llyfrgell Rydd dan arweiniad Alison Woodbridge. Pawb yn cael eu croesawu gyda phaned ac yna ymlaen â ni i addoli a dysgu mewn ffordd anffurfiol. Yn ogystal, fe wnaethom ddathlu pen-blwydd Efin!

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Bethan Roberts. Cofion cynnes ati.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Salem, Rhyd y Foel

**DIOLCHGARWCH**
Dydd Sul 16 Hydref cynhaliwyd oedfa deuluol o dan arweiniad Catherine Blythin i ddathlu gŵyl Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Roedd y capel yn edrych yn odidog wedi i rai o'r merched fod yn addurno gyda chynnyrch yr Hydref. Daeth pawb â rhoddion sef nwyddau i'w dosbarthu i'r banc bwyd lleol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y plant a rhai o'r rhieni. Roedd tua hanner cant yn bresennol a braf iawn oedd cael cwmni aelodau Hyfrydle, Betws yn Rhos. Cafwyd paned a sgwrs wedi'r oedfa ac yna aethpwyd i ganolfan bwyd Bodnant am ginio. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr.





**CROESO**
Rydym yn falch o groesawu'r Parchedig Marc Morgan atom fel ein bugail. Eisoes cawsom ei gwmni ef a'i briod gweithgar Margaret mewn nifer o wasanaethau a bu eu mab Owain hefyd yn arwain oedfaon yma. Rydym yn ddiolchgar i'r Parchedig Jennie Hurd am lenwi'r bwlch wedi i'n cyn-weinidog y Parchedig Trevor Hoggard ddychwelyd i Seland Newydd.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Bob Roberts, Tan yr Ogof sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE



## Bethel, Prestatyn

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein hoedfa deuluol dan ofal ein bugail y Parchedig Brian Huw Jones. Addurnwyd Bwrdd y Cymun gan Miss Jane Ellis gyda gosodiadau o ddail a blodau'r Hydref. Cymerodd y plant ran flaenllaw yn yr oedfa a mwynhawyd eitemau cerddorol ganddynt.



**NEGESEUON O'R PULPUD**
Gwerthfawrogwn wasanaeth pob cennad a ddaw atom a chafwyd nifer o oedfaon cofiadwy yn ddiweddar. Dan thema 'Golau', dywedodd y Parchedig Brian Huw Jones stori wrth y plant gan dynnu eitemau gwahanol o'i fag i'r plant eu henwi – canhwyllau o wahanol feintiau, torts, lamp ac ati – pob un yn rhoi golau i ni. Eglurodd wedyn sut mae'r Iesu yn goleuo ein bywydau. Roedd pregeth Mr Owain Morgan ynglŷn â phwysigrwydd diolch; agosrwydd Duw oedd thema Gwenda Humphries; hanes y Claf o'r Parlys oedd gan y Parchg Aneurin Owen. Yn ei bregeth trafododd Aneurin faterion cyfoes sy'n parlysu bywydau pobl heddiw – tlodi, tristwch, salwch a phoen meddwl. Awgrymodd y dylem ninnau helpu ein cyd-ddyn drwy arwain pobl at draed yr Iesu fel y gwnaeth cyfeillion y claf o'r parlys.

Yn dilyn Cyfnod y Clo, rydym bellach yn casglu'r offrwm yn ystod y gwasanaeth fel o'r blaen. Rhai o'r plant sydd am fod yn gasglyddion yn awr. Diolch i Bethan a Lili am gychwyn y gwaith.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Aeth nifer ohonom i gapel Bathafarn, Rhuthun, ar gyfer cyfarfod Merched Methodistaidd yng Nghymru. Diolch i'r Llywydd, Mrs Elizabeth Jones, am drefnu ac yn arbennig i Angharad Tomos am ei hanerchiad gafaelgar.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Eluned Owen a Mrs Eluned Williams, ill dwy wedi bod yn yr ysbyty, a dymuniadau gorau hefyd i'n holl aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi oherwydd gwaeledd.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Ebeneser, Treuddyn

**GWASANAETH**
Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Carolau dwyieithog blynyddol am 2.30 prynhawn dydd Sul, Rhagfyr 18fed, dan ofal ein gweinidog y Parchg Eirlys Gruffydd Evans.

**DIOLCH**
Hoffem ddiolch i'r Parchedig Ddr Jennie Hurd am arwain ein gwasanaeth Diolchgarwch ym mis Hydref ac am ddod atom sawl tro yn ystod y flwyddyn. Hefyd, diolch yn fawr i'n gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans, y Parchedig Marc Morgan, Siân Williams, Elizabeth Jones, Owain Morgan a Maryl Rees am arwain gwasanaethau yma yn ystod y flwyddyn.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Rydym wrthi'n brysur yn casglu anrhegion ar gyfer Apêl Gweithredu Dros Blant, sydd yng ngofal y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan. Diolch yn fawr iddynt am eu holl waith i'r elusen yma.

**DYMUNIADAU GORAU**
Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio'n arbennig am y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Cynhaliwyd te prynhawn llwyddiannus yn Villa Norge, cartref Keith a Decia Blacker, a llwyddwyd i godi £325 tuag at yr elusen. Roedd yn brynhawn braf eithriadol a phawb yn mwynhau'r gwmnïaeth. Diolchwn i Keith a Decia am drefnu.

**PENBLWYDDI PRIODAS**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Elwyn a Llywela Roberts ar ddathlu eu priodas ruddem. Mae Llywela yn organydd ffyddlon yn y Tabernacl a bu Elwyn yn drysorydd am nifer o flynyddoedd. Yn yr un modd llongyfarchiadau i'r Parchedig Gwyndaf Richards a'i wraig, Eirlys, sydd hefyd wedi dathlu eu priodas ruddem.

**CYFARFODYDD DIOLCH**
Eleni fe gynhaliwyd y gwasanaeth undebol yng nghapel Pendref, dan ofal Richard Lloyd a'i chwaer, Eleri. Braf hefyd oedd cael ymuno â chynulleidfa Soar, Cwmnantyffyllon, yn eu hoedfa ddiolchgarwch. Mrs Bethan Scotford oedd y cennad, ac roedd y capel wedi ei addurno yn gelfydd a hardd gan un o'r aelodau, Olwen Jones.

**SUL Y BEIBL**
Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yn Eglwys Sant Myllin, gyda'r Parchedig Hermione Morris yn gweinyddu.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at Mrs Jean Ellis, sef merch yng nghyfraith Tom a Mair Ellis, a fu'n bur wael ers rhai wythnosau. Anfonwn ein cofion ati hi a'i phriod Huw. Dymunwn hefyd Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'n haelodau, gan gofio'n arbennig am y rhai sydd mewn gwaeledd.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Bethel, Deganwy

**DERBYN AELODAU NEWYDD**
Ar fore Sul 23 Hydref cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn yng nghapel Bethel dan arweiniad y Parchedig Arglwydd Roger Roberts, pan dderbyniwyd pump o aelodau newydd. Roedd yn achlysur bendithiol a chalonogol iawn. Diolch i Diane Evans sydd wedi bod mor weithgar yn meithrin yr aelodau newydd.

**GOHEBYDD .** OWIE MORRIS



# Llefydd newydd, pobol newydd

Dyma enw un o fentrau newydd yr Eglwys Fethodistaidd – sydd mae'n debyg yn gwneud beth mae'n ei ddweud ar y tun!

A hithau'n rhan o gynllun 'Llefydd newydd, pobol newydd', mae'r Diacon Methodistaidd Lisa Rathbone yn cyfarfod pobol newydd yn gyson, a hynny mewn sawl lle newydd, ond mae ganddi hefyd ffocws penodol i'w gwaith. Mae Lisa'n gwasanaethu yn bennaf ymhlith pobl sy'n dysgu Cymraeg yn y Gogledd-ddwyrain. Enw'r prosiect yw 'Llanddysgwyr', er nad yw'r rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd mewn na chapel na llan ond yn hytrach drwy ymestyn allan at bobl lle bynnag y bônt, sef yn aml mewn gweithgareddau dysgu Cymraeg.

Dechreuodd Lisa yn y penodiad hwn fis Medi diwethaf, yn dilyn nifer o benodiadau blaenorol fel diacon yn Nottingham, Birmingham ac yn fwy diweddar Llangollen. Mae hi'n byw yn awr yn yr Wyddgrug gyda'i gŵr y Parchedig Phil Poole, arolygwr Cylchdaith Bwcle a Glannau Dyfrdwy. Cafodd ei magu yn Llandudno lle y dechreuodd ei diddordeb yn y Gymraeg.

Bu'n braf iawn cael sgwrs â Lisa ar ran y *Gwyliedydd* a chlywed mwy am ei gwaith. Brwdfrydedd tawel sy'n ei nodweddu. Mae'n hoff iawn o gael cyfle i gyfarfod â phobl nad ydynt yn arddel ffydd; yn wir mae'r prif bwyslais ar gysylltu â phobl nad ydynt yn mynd i'r capel. Drwy ei chysylltiadau â dosbarthiadau Cymraeg yn lleol gall roi gwybod i bobl am bethau sydd ganddi ar y gweill, ac mae hefyd yn defnyddio dulliau eraill fel rhoi taflenni yn nwylo pobl wrth yr archfarchnad. Bydd yn gwahodd pobl i gyfarfod mewn siop goffi ac i gymryd rhan mewn gwasanaethau Zoom lle cyflwynir addoliad Cymraeg yn raddol. Yn anad dim, mae'n ceisio cyfleoedd i ddechrau sgwrs â phobl. Daw pobl i wybod wedyn fod rhywbeth newydd yn digwydd a bod croeso iddyn nhw.

Mae'r cynllun yn un newydd iawn ar hyn o bryd ond mae Lisa'n gobeithio trefnu nifer o bethau wrth i amser fynd yn ei flaen. Cyn y Nadolig mae'n bwriadu gwahodd pobl i ymuno i gerdded Llwybr Gŵyl y Geni yn Wrecsam, ac i ddod i wasanaeth carolau i ddysgwyr yn yr Wyddgrug.

Boed bendith ar waith Lisa ac ar bawb a ddaw i gysylltiad â 'Llanddysgwyr'.

*Ff.R.*




Y Diacon Lisa Rathbone a'i gŵr y Parchedig Phil Poole

# Cofio Syr Geraint Evans

***gan Gareth Blainey***

Ychydig fisoedd yn ôl roedd hi'n braf gweld fod Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd wedi cyhoeddi ysgoloriaeth i nodi canmlwyddiant genedigaeth y diweddar Syr Geraint Evans. Y canwr opera o fri rhyngwladol oedd Llywydd y coleg pan fu farw yn 1992 ac er mwyn helpu cantorion addawol bydd cronfa gwerth £150,000 yn darparu'r ysgoloriaeth hon i un myfyriwr y flwyddyn yn Ysgol Opera'r coleg am y deng mlynedd nesaf yn enw Syr Geraint.

Cafodd ei eni ym mhentref Cilfynydd yn ymyl Pontypridd ar 16 Chwefror 1922. Astudiodd yng Ngholeg Cerdd y Guildhall yn Llundain ac yng Ngenefa yn y Swistir a chanodd yn broffesiynol mewn opera am y tro cyntaf yn 'Die Meistersinger' gan Wagner yn Covent Garden yn Llundain yn 1948. Yno hefyd y clywyd ei lais bas-bariton hynod o gyfoethog ar lwyfan opera am y tro olaf cyn iddo ymddeol yn 1984. Yn ystod ei yrfa ddisglair perfformiodd dros saith deg o rannau ym mhrif dai opera'r byd a phortreadodd Figaro yn 'Le nozze di Figaro' (Priodas Figaro)




gan Mozart fwy na phum cant o weithiau o 1949 ymlaen. Digwyddodd un o'r perfformiadau hynny yn La Scala yn Milan yn 1960 a Syr Geraint oedd y canwr cyntaf o Brydain i ganu yno ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Dim rhyfedd felly ei fod o'n uchel ei barch ac ar ôl ei farwolaeth yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth daeth mwy na 1700 o bobl i'w wasanaeth coffa yn Abaty Westminster. Cafodd ddylanwad mawr ar Syr Bryn Terfel, a ddewisodd ddilyn ôl troed un o'i arwyr i goleg y Guildhall yn 1984. Dair blynedd yn ddiweddarach, ar ôl i Syr Geraint glywed Syr Bryn yn canu yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog ffoniodd Syr Geraint yr arweinydd blaenllaw Syr Georg Solti a'i gynghori i roi clyweliad iddo. Dyna ddigwyddodd a chafodd Syr Bryn ddwy ran mewn operâu – Antonio ym 'Mhriodas Figaro' a'r Negeseuydd yn 'Die Frau ohne Schatten' (Y Ddynes Heb Gysgod) gan Richard Strauss.

Mae Ysgoloriaeth Syr Geraint Evans yn ffafrio canwyr bariton o Gymru ond bariton o Dde Corea, Edward Kim, yw enillydd cyntaf yr ysgoloriaeth. Dyma oedd ei ymateb hyfryd: 'Mae'n anrhydedd o'r mwyaf. Roedd Syr Geraint Evans yn ysbrydoliaeth ryfeddol i bob canwr, yn enwedig i ddynion. Roedd ganddo lais a phresenoldeb llwyfan rhagorol ac yn bwysicaf oll roedd o'n nabod ei offeryn yn dda'.

# Wrth fynd heibio

gan **William H. Owen**

Fydd prynhawn Nadolig ddim yr un fath eleni. Am y tro cyntaf ers 70 mlynedd fydd y Frenhines ddim yno i roi ei chyfarchiad am 3.00 o'r gloch. Efallai nad oedd ei neges flynyddol mor boblogaidd ag y bu, ond roedd yn rhoi sicrwydd a chynhesrwydd yng nghalonnau miliynau o wylwyr a gwrandawyr ein bod yn dathlu diwrnod arbennig i'r teulu.



Yr hyn sy'n peri dychryn i mi yw fy mod yn ddigon hen i'w chofio yn dechrau ar y radio yn 1952 ar gam cyntaf ei rhawd frenhinol. Erbyn iddi droi at deledu hefyd yn 1957, welais i mohoni ar hwnnw am nad oedd set wedi cyrraedd ein cartref ar y pryd. Er mwyn ei gweld ym mlwyddyn y coroni cawsom fynd mewn bws o'r ysgol gynradd i'r sinema bum milltir i ffwrdd i weld y 'Coronation', yn frenhinwyr bychan i gyd. Dyna lle'r oedd yn Abaty mawreddog Westminster yn cael ei choroni'n Frenhines mewn seremoni na welsom ei thebyg.

Credaf fod y parti dathlu yn y pentref wedi bod cyn hynny, a phawb yn derbyn ei fwg i gofio'r achlysur ar ôl cael llond bol o jeli a blymonj, cacenni rif y gwlith ac orenj sgwash.

Ar adeg arall mae'n bosib y derbyniwyd y rhodd nesaf – y Testament Newydd glas a'r goron aur ar ei flaen gyda'r geiriau 'E II R, Y Coroni, Mehefin 1953'. Mae'n dal yn fy meddiant er i'w gyflwr ddirywio'n arw.


Rhodd yr Awdurdod Addysg lleol oedd hwn i ddathlu'r achlysur. Gwnes fwy o ddefnydd ohono o lawer na'r mwg. Am ryw reswm roeddwn wedi cymryd at ei wneuthuriad, ei deimlad, yr argraffu clir a'r tudalennau tenau. Wrth fynd yn ôl ato eleni roedd yn siom nad oeddwn yn cael yr un wefr o'i gyffwrdd â phan oedd yn fy nwylo gyntaf yn 1953.

Hyd y cofiaf – ac rydw i bron yn sicr – ni chododd yr un llais yn erbyn y dathliadau na'r rhoddion. Ar y pryd roedd pawb yn derbyn mai dyma oedd y drefn. Doedd rhoi coron frenhinol ar flaen Testament Newydd yn cythruddo neb. Roedden ni'n cysylltu'r Frenhiniaeth yn syth â chrefydd a hynny'n cael ei atgyfnerthu gan ffilm y coroni a rhan Archesgob Caergaint yn yr achlysur seremonïol mawr. Yn ddiarwybod roeddem wedi ein dylanwadu'n ifanc.

Dychmygwch sut y byddai heddiw petai'r Awdurdod Addysg yn cyflwyno Testament Newydd i bob disgybl i nodi dyrchafiad y Brenin Charles III. Cymraf yn ganiataol yn yr oes amlddiwylliannol hon na fydd y fath ymdrech adeg ei goroni fis Mai nesaf, er mai achlysur eglwysig yn Abaty Westminster fydd hwnnw eto.

Cyn hynny daw'r Gwyliau a gwyddom y bydd trafod di-ben-draw ar neges Nadolig gyntaf y brenin newydd – beth fydd ei thema, o ba ystafell ymhle y bydd yn darlledu a pha mor wahanol fydd ei ymdrechion o'i gymharu â'i fam? Ac wedyn, a fydd wedi denu mwy neu lai o wylwyr o'i gymharu â'r Frenhines ar ei gorau?

Gawn ni weld sut y bydd 'God bless you all' Charles III wedi plesio.



# Peidiwch anghofio eich rhestr siopa!

***gan Glyn Tomos***



Pan fyddwch yn mynd allan i siopa bwyd, ydach chi yn un o'r rheiny sydd yn mynd â darn o bapur gyda chi yn rhestru'r bwyd ydach chi am ei brynu? Neu ydach chi'n mynd yn waglaw a phrynu unrhyw beth sydd yn denu eich llygad?

Mae'n debyg bod pawb ar ryw adeg, boed ar ddarn o bapur, ar hen amlen neu nodyn ar ffôn, wedi gwneud rhestr o'r fath. Maen nhw'n dweud bod gwneud rhestr siopa yn ffordd dda ac effeithiol o atgoffa eich hun o'r hyn yr ydach chi wirioneddol angen ei brynu yn hytrach na chael eich denu i wario ar eitemau diangen.

Yn ddifyr iawn mae copïau o restrau siopa pobl dros y blynyddoedd yn cael eu harddangos mewn arddangosfa ddiddorol yn Llundain ar hyn o bryd, arddangosfa'r Aide Mémoire yn y Museum of Brands. Mae'r arddangosfa yn cynnwys dros 200 o restrau a'r cyfan wedi eu casglu ers 2016. O weld y rhestrau, yr hyn sydd yn gwneud rhai mor arbennig yw nid yn gymaint eu cynnwys, ond yn hytrach, sut maen nhw wedi cael eu hysgrifennu, ar beth, a'r nodiadau personol sydd i'r siopwr. Mae eu darllen yn rhoi darlun gonest ac agos-atoch o'r perchnogion. Mae pob rhestr yn adrodd stori unigryw ac mae eu darllen nhw yn teimlo yn brofiad arbennig, a hyd yn oed ychydig yn fusneslyd. Drwy gasgliad o restrau siopa pobl mae modd gweld pa fwydydd oedd ffefrynnau'r cyfnod e.e. Weetabix, Philadelphia a Dove. Maent yn gallu rhoi i ni ddarlun diddorol o arferion siopa, a phob un ohonynt yn adrodd llawer wrthym am yr unigolyn tu ôl i'r rhestr, swperau i un, cacen pen-blwydd, blodau ac ati.

Wrth gwrs, gyda chynnydd yn y defnydd o ddyfeisiau digidol, a mwy o bobl y dyddiau hyn yn dewis sgrifennu eu rhestr siopa ar eu ffonau symudol, a fydd rhestrau ar bapur yn dod i ben yn fuan?

O feddwl am restrau siopa a'r cyfnod anodd yr ydan ni yn byw ynddo gyda chostau byw a thanwydd yn cynyddu, dechreuais hel atgofion am ddyddiau'r 'Coparét', y siop bwysicaf o bell ffordd ar un adeg yn ardaloedd y chwareli llechi a sawl ardal arall ledled Cymru. Archfarchnad gydweithredol gymunedol oedd y Coparét, neu'r Co-op, a werthai bob math o fwyd a dillad, yn ogystal â glo. Roedd gan bob cwsmer rif aelodaeth a llyfr lle cofnodid pob pryniant, a byddai hyn yn gymorth i deuluoedd mawr na allent dalu'n syth am y nwyddau. Roedd disgwyl i bawb dalu'n ôl yn rheolaidd. Roedd dywediad yn lleol sef 'talu'r hen a dwyn y newydd' sef talu am y nwyddau a brynwyd eisoes, a derbyn nwyddau heb orfod talu amdanynt tan yr wythnos ganlynol, y 'never never'.

Y drefn oedd mynd â llyfr ordors (rhestr siopa i chi a fi heddiw) i mewn i'r offis ddechrau'r wythnos, a byddai'r delifro yn digwydd ddiwedd yr wythnos. Cofiaf fy mam yn sôn i aelod o staff y Coparet lleol ddweud wrthi unwaith eu bod yn disgwyl am gyflenwad o gotiau glaw i'r siop, ac y byddai'r cotiau jest y peth i ni, a ninnau efo pump o blant yn y teulu. Roedd y Co-op, wrth gwrs, yn fodlon eu cadw ar ein cyfer, yn ogystal â rhoi digon o amser i Mam dalu amdanynt.

Ar drothwy'r Nadolig, byddai'r siop yn talu difidend i'r holl gwsmeriaid. Byddai'r difidend yn help mawr tuag at gostau bwyd ac anrhegion Nadolig. Byddai ciw hir o bobl tu allan i'r siop yn sefyll am oriau gyda'r nos i gasglu'r difidend. Dibynnai maint y difidend ar sawl punt oedd rhywun wedi ei wario yn y siop yn ystod y flwyddyn, a byddai'n ddibynnol hefyd ar elw'r siop dros yr un cyfnod.

Efallai bod arferion siopa pobl wedi newid ond mae'r syniad o wneud rhestr siopa cyn ei mentro hi allan i'r siop yn dal i wneud synnwyr. Peidiwch anghofio eich rhestr siopio y Nadolig hwn. Fe all wneud byd o wahaniaeth i'ch bil ar y diwedd!



# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

**"Beth yw'r atsain o Effrata?**
**Nefol lu yn seinio sydd"**

Llinellau cyntaf emyn Roger Edwards yw'r rhain, ar ffurf cwestiwn ac ateb. Enw'r cylch neu'r rhan o'r wlad lle'r oedd Bethlehem yw Effrata. O ddyddiau plentyndod rydym yn gyfarwydd â'r broffwydoliaeth a glywir bob Nadolig, o'r bumed bennod o lyfr Micha – "Ond ti, Bethlehem Effrata, sy'n fechan i fod ymhlith llwythau Jwda, ohonot ti y daw allan i mi un i fod yn llywodraethwr yn Israel". Mae Micha'n disgrifio Duw yn dychwelyd i Fethlehem, ardal enedigol Dafydd, y brenin delfrydol yng ngolwg yr Iddewon, ac oddi yno'n codi arweinydd i waredu'r genedl. Mae'n awgrymu nad o blith y gwŷr mawr, y cyfoethogion na'r gwleidyddion uchel eu cloch a mawr eu stŵr yn Jerwsalem y daw'r Meseia ond o Fethlehem ddinod.

**Cyfnod anodd i dawel ddinas Bethlehem**

Mae tueddiad, onid oes, i ddarlunio Bethlehem fel man delfrydol, tangnefeddus, rhamantaidd a digyffro. Nid fel yna oedd hi adeg geni'r Iesu o bell ffordd ac yn y blynyddoedd diwethaf hyn aeth Dinas Dafydd trwy gyfnod anodd iawn i'w dinasyddion, yn enwedig gan fod y ddinas yng nghanol yr ymryson rhwng Israel a'r Palestiniaid.

Yn niwedd Tachwedd y llynedd (2021) ar ôl ugain mis heb bererinion tramor o gwbl cyhoeddwyd y gallai Bethlehem unwaith eto groesawu ymwelwyr ar y Nadolig oedd ar y trothwy wrth i'r wlad liniaru ei chyfyngiadau Covid. Oherwydd canslo neu ohirio pererindodau a theithiau i Fethlehem, dioddefodd y sector oedd yn dibynnu ar dwristiaeth ddyledion sylweddol iawn. Mae wyth deg y cant o boblogaeth Bethlehem yn llwyr ddibynnol ar dwristiaeth i gael incwm ac mae wedi bod yn galed tu hwnt iddynt. Er i'r awdurdodau leddfu cyfyngiadau teithio, dim ond 30,000 o ymwelwyr a phererinion ddaeth yn hanner cyntaf mis Tachwedd 2021. Cymharwch y ffigwr hwn gyda 421,000 o ymwelwyr ddaeth yn Nhachwedd 2019 yn unig! Effeithiwyd yn drwm ar lawer iawn o deuluoedd Bethlehem – nid oeddent yn medru gwneud bywoliaeth o gwbl na gyrru eu plant i'r ysgol neu'r Brifysgol.

**Cyfeillion y Wlad Sanctaidd**

Dywed yr elusen *Cyfeillion y Wlad Sanctaidd* fod llu o aelwydydd wedi suddo i ddyledion anferth ac yn methu talu am fwyd a gofal meddygol. Mae'r elusen wedi rhannu naw mil o bunnoedd yn fisol i helpu teuluoedd a oedd wedi syrthio i ddyledion. Achosodd cwymp llwyr y diwydiant twristiaeth bryder mawr i famau Bethlehem. Un a gafodd gymorth gan yr elusen oedd Mary Abu Hanna Anton, a oedd yn gweithio mewn meithrinfa tra roedd ei phriod Samer yn gweithio fel tywysydd yn Eglwys yr Enedigaeth sef addoldy enfawr a adeiladwyd uwchben y fan lle credir y ganwyd y baban Iesu. Aiff yr addoldy yn ôl i'r chweched ganrif ac mae'n rhannu Sgwâr y Geni gydag Eglwys y Santes Catrin sy'n dyddio'n ôl i'r bymthegfed ganrif a Mosg Omar o'r flwyddyn 1860. Bu'n rhaid i Mary dalu tâl sylweddol, ddeuddeg cant o bunnoedd, yn dilyn genedigaeth ei phlentyn sef tair gwaith yn fwy na chyflog misol ei phriod. Yn ôl Cyfarwyddwr *Cyfeillion y Wlad Sanctaidd*, Brendan Metcalfe: "mae cofio genedigaeth yr Iesu i Gristnogion yn ddathliad grymus a chyffrous ond y Nadolig hwn yn ogystal rydym yn annog pobl i gofio am famau fel Mary sy'n paratoi i roi genedigaeth yn y Wlad Sanctaidd heddiw".



Hoffaf weddi Adfent y Cyfeillion hyn -"Duw cyfiawnder a heddwch, Tad yr Iesu, Goleuni'r Byd, boed i Ti gyfodi Apostolion a Phroffwydi yn ein dydd. Arglwydd Iesu, gelwaist ni i fod yn oleuni yn y byd: cryfha ein brodyr a'n chwiorydd yn dystion i'th ras a'th heddwch yn y wlad a wnaethost Ti yn sanctaidd". Cofiwn am drigolion Bethlehem Effrata y Nadolig hwn. Rhan gyntaf Carol Nadolig y Parchedig Roger Jones gaiff y gair olaf:

"Ar feysydd y defaid y gwyliai'r bugeiliaid
Rhag lleiddiaid y nos ar eu rhawd,
Daeth nefol ymwelydd a'i neges yn newydd
Am eni Gwaredydd a brawd;
Ym Methlehem ddinas mewn beudy anaddas,
Di-urddas i Geidwad y byd,
Y Nef yn ei wyneb, mae'n Fab tragwyddoldeb,
A phreseb a gafodd yn grud".



# TUDALEN Y PLANT



**Adnod i'w dysgu:**

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

**Ioan 3:16**

# Stori'r Anifeiliaid



Un tro dyma'r holl anifeiliaid yn dod at ei gilydd o bedwar ban byd i gael sgwrs.

Meddai'r llew yn ei lais dwfn: "Fi yw brenin yr holl anifeiliaid."

Edrychodd pawb ar gorff cyhyrog a mwng hardd y llew, a'i edmygu.

"Fi yw'r anifail mwyaf ar y ddaear," meddai'r eliffant. "Rydw i'n fawr ac yn gryf. Mi wnaethon ni yr eliffantod groesi'r Alpau efo'r Cadfridog Hannibal ac rydyn ni yn cael ein canmol yn y llyfrau hanes."

"Go iawn?" meddai'r jiraff. "Ond, wrth gwrs, fi yw'r talaf o bawb."

"A ni yw'r cyflymaf," meddai'r llewpart a'r tsita.

Dyma'r camel yn edrych i lawr ei drwyn a dweud: "Rwy'n credu ein bod ni y camelod wedi chwarae rhan bwysig pan wnaethon nhw godi'r pyramidau yn yr Aifft. Rydyn ni'n gallu croesi'r anialwch heb fod angen diod o ddŵr."

Yn y gornel roedd un creadur bach, llwyd, yn gwrando'n ddistaw. Yr asyn oedd hwn.

"O diar," meddai toc. "Dydw i ddim yn fawr iawn a fedra i ddim gwneud pethau clyfar."

Yna, yn sydyn, cododd yr asyn ei ben a'i glustiau.

"Cofiwch chi," meddai. "Amser maith yn ôl, pan oedd hi'n dywyll iawn un nos yng nghanol y gaeaf, mi wnaeth fy hen daid i fynd ar daith bell, yr holl ffordd i'r Aifft. Ar ei gefn roedd mam ifanc oedd yn gorfod ffoi i'r Aifft. Ac yn ei breichiau hi roedd yna fabi bach, y Brenin Iesu."

(seiliedig ar stori gan C. Ralph Bennett)